

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

**2021 Rhif 192 (Cy. 43)**

**ANIFEILIAID, CYMRU**

**IECHYD ANIFEILIAID**

**Gorchymyn Milheintiau (Diwygio) (Cymru) 2021**

*Gwnaed* - - - - 24 Chwefror 2021

*Yn dod i rym* - - 25 Chwefror 2021

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 1, 7(1), 8(1), 17(1), 23, 29 a 72 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(1).

**Enwi, cymhwyso a chychwyn**

- 1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Milheintiau (Diwygio) (Cymru) 2021.
- (2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.
- (3) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 25 Chwefror 2021.

**Diwygio Gorchymyn Milheintiau 1989**

2. Mae Gorchymyn Milheintiau 1989(2) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

**Diwygio erthygl 4**

3. Yn erthygl 4—
  - (a) ym mharagraff (1)—
    - (i) yn lle “animals and poultry” rhodder “a relevant host”,
    - (ii) ar ddiwedd is-baragraff (a), hepgorer “and”,
    - (iii) ar ddiwedd is-baragraff (b), yn lle “.” rhodder “; and”, a
    - (iv) ar ôl is-baragraff (b) mewnosoder—

“(c) severe acute respiratory syndrome coronavirus 2 (SARS-CoV-2).”;

(1) Mae swyddogaethau “the Ministers” o dan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981 (p. 22) (fel y'u diffinnir yn adran 86(1) o'r Ddeddf honno) yn arferadwy gan Weinidogion Cymru (o ran Cymru), yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosoglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosoglwyddo Swyddogaethau) 2004 (O.S. 2004/3044) ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(2) O.S. 1989/285, a ddiwygiwyd gan O.S. 2011/2883.

(b) ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

“(3) In this article, “relevant host” means—

- (a) in the case of organisms mentioned in paragraph (1)(a) and (b), any animal or poultry;
- (b) in the case of the organism mentioned in paragraph (1)(c), any mammal.”

### **Diwygio erthygl 8**

4. Yn erthygl 8—

- (a) ym mharagraff (1), yn lle “a designated organism” rhodder “an organism designated by article 4(1)(a) or (b)”;
- (b) ym mharagraff (5)(a), yn lle “a bull, cow, steer, heiver, calf, horse, deer, sheep, goat, pig or rabbit” rhodder “cattle (including water buffalo and bison), horse, deer, sheep, goat, pig or rabbit”.

5. Ar ôl erthygl 8 mewnosoder—

#### **“Reporting of presence of the organism designated by article 4(1)(c)**

**8ZA.—**(1) Subject to paragraphs (3) and (4) below, where the presence or former presence of the organism designated by article 4(1)(c) is identified in a sample taken from a mammal or the carcase of a mammal, by a laboratory examination or by a serological or other examination carried out elsewhere than at a laboratory, the person in charge of the laboratory, or, in the case of an examination carried out elsewhere than at a laboratory, the person carrying out such examination shall forthwith make to a veterinary officer of the Minister a written or oral report containing the particulars specified in Schedule 2 to this Order.

(2) A person who is under an obligation to make a report under paragraph (1) above shall, if so required by an officer of the appropriate Minister, supply that officer with a culture or diagnostic material of the designated organism in respect of which that obligation arose.

(3) Nothing in paragraph (1) above shall require a person to make a report where that person’s knowledge or suspicion of the presence or the former presence of a designated organism results from an identification made by or on behalf of, the appropriate Minister.

(4) For the purposes of this article, “veterinary officer of the Minister” means an officer of the Minister who is a person registered in the register of veterinary surgeons or in the supplementary veterinary register.”

### **Diwygio erthygl 8A**

6. Yn erthygl 8A—

- (a) ym mharagraff (1), yn lle “carcass” rhodder “carcase of an animal”;
- (b) ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

“(2A) The particulars of which notice must be given are—

- (a) the species of mammal in which (or in the carcase of which) the organism is, or is suspected to be or have been present;
- (b) the name of the owner or keeper of the animal;
- (c) the address of the premises at which the mammal or carcase is present;
- (d) the name and address of the person by whom the notice is given;

(e) the date on which notice is given.

(2B) Notice given under this article must be signed by the person providing the information under paragraph (2A).”;

(c) yn lle paragraff (3) rhodder—

“(3) For the purposes of this article, “animal” means any kind of mammal except man.”

## **Diwygio Atodlen 2**

7. Yn Atodlen 2, ar ôl paragraff 2 mewnosoder—

“**2A.** The name and address of the owner or keeper of the animal or carcase in which the sample of the designated organism is isolated or the previous presence of that organism is detected.”

24 Chwefror 2021

*Lesley Griffiths*  
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion  
Gwledig, un o Weinidogion Cymru

*Statws* This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.

---

## NODYN ESBONIADOL

(*Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn*)

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Milheintiau 1989 (O.S. 1989/285) ("y Gorchymyn") at y dibenion a ganlyn—

- (a) i ychwanegu coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) i'r rhestr o organeddau a ddynodir at ddibenion adran 29 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981 (p. 22) (organeddau y mae darpariaethau a benodir o'r Ddeddf honno yn gymwys iddynt). Mae dynodi SARS-CoV-2 yn gymwys mewn perthynas ag achosion lle mae'r organedd yn cael ei gario mewn mamaliaid (*erthygl 3*);
- (b) i ychwanegu'r manylion sydd yn rhaid adrodd yn eu cylch mewn perthynas â SARS-CoV-2 (*erthygl 5*);
- (c) i ragnodi'r manylion sydd i'w cynnwys mewn adroddiad sydd angen ei lofnodi mewn perthynas ag *Echinococcus multilocularis* o dan adran 8A o'r Gorchymyn (*erthygl 6*).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.